

Hygyrchedd

Mae Gŵyl Chwedleua Beyond the Border yn ymroddedig i wneud ein gŵyl yn 2021 ein gŵyl fwyaf hygyrch erioed.

Bwriadwn wneud yr ŵyl, y perfformiadau, y troeon stori a'r profiad o ymweld ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Dinefwr fel profiad gŵyl yn fwy hygyrch nag erioed.

Gwnawn hyn drwy nifer o gynlluniau drwy gydol y flwyddyn nesaf yn cynnwys gweithio gyda'n cynulleidfaoedd arferol i ofyn iddynt beth fedrwn ei wneud i wella hygyrchedd, gweithio gydag arbenigwyr hygyrchedd a gweithio gydag offer a thechnoleg.

Darllenwch fwy am yr hyn y bwriadwn ei wneud dan – Safle'r Ŵyl islaw.

SAFLE'R ŴYL

Byddwn yn gweithio i sicrhau, o archebu eich tocyn i adael y safle, y bydd y profiad yr ŵyl Beyond the Border fwyaf hygyrch erioed.

Rydym eisiau gweithio gyda'n cynulleidfaoedd i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau hyn. Rydym eisiau manteisio ar y cyfle o symud i safle newydd fel cyfle i gael cymaint ag sy'n bosibl yn ei le ar gyfer gŵyl 2021 yn arbennig wrth i ni symud drwy ofynion ychwanegol heriol gwneud ein safle yn ddiogel o ran Covid 19 ar gyfer ein holl ymwelwyr. Byddwn yn ymgynghori gyda chwsmeriaid yn gyson i wella pethau ar gyfer yr ŵyl yn 2021 yn ogystal â gwyliau'r dyfodol.

O amgylch y safle

Byddwn yn darparu cyfleusterau hollol hygyrch ar y maes gweryslla a maes yr ŵyl, byddwn yn darparu gofodau parcio car hygyrch dynodedig, byddwn yn darparu maes gweryslla diogel a hygyrch ac yn darparu ardaloedd hygyrch ar gyfer cerbydau byw-ynddynt.

Byddwn yn darparu arwyddion hygyrch ym mhob rhan o safle'r ŵyl a'r maes gweryslla.

Byddwn yn rhoi gwybodaeth ar lwybrau hygyrch drwy safle'r ŵyl a'r maes gweryslla.

Byddwn yn darparu ardaloedd gwefru ar gyfer cadeiriau olwyn a sgwteri.

Byddwn yn darparu gofod "tawel" penodol.

Perfformiadau:

Bwriadwn gael mwy o BSL nag erioed o'r blaen a chyflwyno disgrifiad sain, teithiau cyffwrdd a chapsiynau.

Byddwn yn darparu seddi hygyrch ym mhob safle a thrwy gydol yr ŵyl.

Argymhellwn fod yr holl ddigwyddiadau chwedleua yn addas ar gyfer rhai gyda nam ar eu golwg gan nad yw'r rhan fwyaf o sioeau yn dibynnu ar bropiau neu ddyluniad set a byddwn yn annog ein holl chwedleuwyr i gyflwyno disgrifiadau sain fel rhan o'u perfformiad neu ddarparu disgrifwyr sain.

Bydd cylchau clywed ar gael.

Hyfforddiant Staff:

Byddwn yn rhoi hyfforddiant anabledd i staff, criw, stiwardiaid a gwirfoddolwyr.

Rydym yn gweithio gyda Chanolfan Celfyddydau Taliesin, ein partner swyddfa docynnau newydd, i wneud y broses o archebu tocyn mor hygyrch ag sydd modd.

Mynediad i wybodaeth:

Byddwn yn darparu gwybodaeth mewn nifer o fformatau i sicrhau fod gwybodaeth am yr ŵyl a'r safle mor hygyrch ag sydd modd.

Gwybodaeth am Docynnau a Chyfleusterau Gwersylla:

Byddwn yn darparu storfa neilltuol ar gyfer meddyginiaeth.

Byddwn yn cynnig tocyn cydymaith am ddim ac yn gweithio i sicrhau fod y broses o archebu'r tocyn hwn yn rhwyddach nag erioed o'r blaen.

Cymhwyster am Docyn Cydymaith

Rydych yn gymwys i wneud cais am docyn am ddim i gydymaith ddod gyda chi os ydych wedi prynu eich tocyn eich hun ac y gallwch dderbyn eich bod yn derbyn unrhyw un o'r dilynol:

- Cerdyn Access gyda symbol +1 (ar gyfer tocyn cydymaith) a/neu symbol Pellter neu Gadair Olwyn (ar gyfer tocynnau cerbyd). <https://www.accesscard.org.uk/>
- Llythyr cadarnhad yn dangos eich bod yn derbyn elfen "Byw Dyddiol" (ar gyfer tocynnau cydymaith) a/neu'r elfen "Mynd o Gwmpas"/"Symudedd" (ar gyfer tocynnau cerbyd) PIP neu DLA.
- Llythyr yn cadarnhau eich bod yn derbyn Lwfans Gweini.
- Llythyr cadarnhau eich bod yn dangos y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- Dwy ochr eich Bathodyn Glas (ar gyfer tocynnau cerbyd yn unig).
- Tystiolaeth cofrestru nam difrifol ar y golwg.
- Tystiolaeth o ddiagnosis bod ar y sbectrwm awtistig.
- Llythyr gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol arall yn cadarnhau na fedrech fynychu'r ŵyl ar eich pen eich hun (ar gyfer tocyn cydymaith) a/neu bod gennych anabledd neu gyflwr meddygol sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ddefnyddio maes gwersylla neu faes parcio hygyrch (ar gyfer tocynnau cerbyd).

I archebu eich tocyn cydymaith, archebwch eich tocyn eich hun ar-lein dros y ffôn. Gallwch anfon yr wybodaeth hon atom ymlaen llaw neu ddod â thystiolaeth gyda chi a dull adnabod gyda llun pan fyddwch yn casglu eich tocynnau yn yr ŵyl.

Os oes gennych gwestiynau, y ffordd fwyaf effeithol o gysylltu â ni yw drwy info@beyondtheborder.com. Gallwch hefyd adael neges llais ar 02921 660501 ond gan nad oes staff ar y llinell bob amser, gall fod oedi cyn cysylltu'n ôl a chi.